# Nodyn Ymchwil:
# Y Gadwyn Cyflenwi Bwyd

Rhagfyr 2014

## Cyflwyniad

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae pryder cynyddol wedi'i fynegi am y berthynas rhwng manwerthwyr bwyd mawr a chynhyrchwyr sylfaenol. Mae amrywiaeth o fesurau wedi'u rhoi ar waith i reoleiddio'r berthynas hon a sicrhau bod cyflenwyr a manwerthwyr yn cael bargen deg.

Mae'r nodyn ymchwil hwn yn rhoi trosolwg o'r mesurau hynny a'r effaith maent wedi'u cael ar gyflenwyr a manwerthwyr yn ogystal â'r newidiadau mwy diweddar yn y farchnad adwerthu bwyd a'u canlyniadau.

## Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd

Yn dilyn y pryderon a godwyd am y berthynas rhwng archfarchnadoedd a chyflenwyr, bu'r Comisiwn Cystadlu yn ymchwilio i gyflenwi bwydydd ym mis Mai 2006. Arweiniodd yr ymchwiliad at ddrafftio'r Cod Ymarfer Cyflenwi Bwydydd (GSCOP) yn 2009[1]. Cafodd y cod ei lofnodi gan 10 o'r prif archfarchnadoedd[2], sydd ar hyn o bryd yn rhannu 98.8% o farchnad cyflenwi bwydydd y DU.[3] Mae'r cod ymarfer yn cynnwys nifer o fesurau sy'n berthnasol i'r manwerthwyr, dyma grynodeb:

- Gwahardd addasiadau ôl-weithredol i delerau ac amodau cyflenwi;
- Ei gwneud yn ofynnol i fanwerthwyr ymdrin â'u cyflenwyr yn deg ac yn gyfreithlon;
- Gwahardd trefniadau sy'n gwneud cyflenwyr yn atebol am golledion o ganlyniad i grebachu neu wastraff;
- Ei gwneud yn ofynnol i gadw cofnodion ysgrifenedig o'r holl gytundebau gyda chyflenwyr;
- Cyfyngu manwerthwyr rhag codi tâl ar gyflenwyr am stocio eu cynnyrch;
- Cyfyngu ar y pŵer i wneud i gyflenwyr dalu am hyrwyddo bwydydd;
- Cyfyngu ar y pŵer i dynnu cyflenwyr oddi ar restrau;
- Gofyniad cymrodeddu rhwymol i ddatrys anghydfodau ynghylch materion sy'n codi o dan y cod ymarfer; ac
- Ei gwneud yn ofynnol i benodi swyddogion mewnol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r cod ac i hyfforddi staff am y cod.

Roedd y cynigion gwreiddiol awgrymu bod manwerthwyr yn sefydlu ombwdsmon gwirfoddol. Fodd bynnag, am na ddigwyddodd hynny, sefydlodd Llywodraeth y DU rôl y Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd i orfodi'r cod. Cafodd y Ddeddf Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd[4] Gydsyniad Brenhinol ar 25 Ebrill 2013, gan roi pwerau i'r Dyfarnwr fonitro, cynghori a chymrodeddu ar faterion sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth â'r cod. Cyhoeddwyd canllawiau cymrodeddu hefyd, i sicrhau tryloywder. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, rhoddwyd pwerau ymchwilio i'r Dyfarnwr a'r gallu i osod sancsiynau ar ffurf cosbau ariannol.[5]

---

[1] Llywodraeth y DU, **Groceries (Supply Chain Practices) Market Investigation Order 2009** [fel ar 23 Hydref 2014]
[2] Tesco, Sainsbury's, Asda, Morrisons, Marks & Spencer, The Co-operative, Waitrose, Aldi, Iceland, Lidl
[3] Kantar Worldpanel, **Data marchnad cyflenwi bwydydd y DU**, 21 Hydref 2014 [fel ar 23 Hydref 2014]

[4] Llywodraeth y DU, **Deddf Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd**, 25 Ebrill 2013 [fel ar 23 Hydref 2014]
[5] Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd, **Polisi Cymrodeddu**, 1 Ebrill 2014 [fel ar 23 Hydref 2014]

O dan y cod ymarfer, gall cyflenwyr uniongyrchol neu anuniongyrchol gwyno'n gyfrinachol am weithredoedd archfarchnad at y Dyfarnwr. Yna, bydd y Dyfarnwr yn ymchwilio unrhyw dueddiadau sy'n cael eu harsylwi. Cafodd y Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd cyntaf, Christine Tacon, ei phenodi ar 25 Mehefin 2013.

## Adolygiad effeithiolrwydd yn 2014

Flwyddyn ar ôl ei phenodiad, cyhoeddodd y Dyfarnwr adroddiad ar gynnydd ac argymhellion ar y cod ymarfer.[6]

Yn yr adroddiad, nododd y Dyfarnwr y pum maes lle cafwyd y nifer uchaf o honiadau yn eu cylch:

- Roedd cyflenwyr o'r farn bod y dull fforensig o archwilio ôl-weithredol yn gostus ac yn tanseilio ewyllys da.
- Anghysondebau rhwng y niferoedd sy'n cael eu rhestru gan y cyflenwyr a'r manwerthwyr ar ôl darparu nwyddau.
- Gwasanaethau rhagweld a gosod lefelau prynu. Roedd cyflenwyr o'r farn nad oedd manwerthwyr yn rhannu'r data hwn gyda chyflenwyr, sy'n arwain at fwy o risg rheoli stoc.
- Ceisiadau am gyfandaliadau ymlaen llaw.
- Manwerthwyr yn codi tâl am becynnu a dylunio.

Nododd y Dyfarnwr hefyd fod angen cyfranogiad ehangach i sicrhau momentwm yn y system. Nodwyd fod amharodrwydd rhanddeiliaid i godi materion yn rhwystr i gynnydd a phwysleisiodd y Dyfarnwr y ffyrdd sydd ar gael sy'n sicrhau hygyrchedd.[7]

Atgyfnerthwyd y neges fod gan y Dyfarnwr ddyletswydd gyfreithiol i gadw unrhyw un sy'n gwneud honiadau yn anhysbys, er mwyn annog ymgysylltiad.

## Arolwg YouGov

Ynghyd a'r adolygiad mewnol gan y Dyfarnwr, cynhaliodd YouGov arolwg, gan gyfweld ag ystod o gyflenwyr uniongyrchol ac anuniongyrchol ledled y DU, yn ogystal â sefydliadau masnach ac undebau ffermio.[8]

Nododd yr arolwg feincnod o ran deall y cod a'r meysydd ble mae camddealltwriaeth o ran rôl a phwerau'r Dyfarnwr.

Nodwyd yr un materion a nodwyd yn astudiaeth y Dyfarnwr, yn ogystal â phryderon penodol ynghylch manwerthwyr yn hyrwyddo 'loss leaders'.

Wrth ddadansoddi'r amharodrwydd i godi materion gyda'r Dyfarnwr, nodwyd ofni cael eu cosbi gan fanwerthwyr ac amheuon a diffyg eglurder ynghylch pwerau'r Dyfarnwr fel rhesymau. Nododd yr arolwg, er mai dim ond 23% o'r ymatebwyr oedd wedi codi mater gyda'r Dyfarnwr, roedd 80% wedi profi problemau.

## Manwerthwyr

Yn yr adolygiad blynyddol cyntaf, cyflwynodd rhai o'r manwerthwyr eu hachos ar weithredu'r cod.[9] Nododd Morrisons eu bod wedi annog cyflenwyr i gysylltu yn uniongyrchol â'u Swyddog Cydymffurfiaeth â'r Cod i sicrhau bod materion yn cael eu datrys yn gyflym ac mewn ffordd gyfeillgar. Nododd Morrisons bod eu Swyddog Cydymffurfiaeth â'r Cod wedi integreiddio ymwybyddiaeth o'r cod i mewn i hyfforddiant, ac roedd yn argymell hyrwyddo gwell cyfathrebu rhwng manwerthwyr a chyflenwyr. Nododd Tesco bod eu Swyddog Cydymffurfiaeth â'r Cod wedi bod yn canolbwyntio ar y rhaglen hyfforddi prynwyr, a gafodd ei datblygu yn unol â'r materion a godwyd yn y Cod Ymarfer Cyflenwi Bwydydd.

[6]Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd, **Adroddiad Blynyddol 2013-2014**, 24 Mehefin 2014 [fel ar 23 Hydref 2014]
[7]Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd y DU, **Sut i godi mater gyda'r Dyfarnwr**, 18 Rhagfyr 2013 [fel ar 23 Hydref 2014]

[8]YouGov, **Arolwg o'r gadwyn cyflenwi bwydydd**, 24 Mehefin 2014 [fel ar 24 Hydref 2014]
[9]Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd, **Cyflwyniadau Archfarchnadoedd**, 24 Mehefin 2014 [fel ar 24 Hydref 2014]

## Cynhyrchwyr Bwyd yng Nghymru

Yng Nghymru, mae'r sector cynhyrchu bwyd yn cyflogi 44,600 o bobl[10] ac mae ganddo drosiant blynyddol o £5.7 biliwn[11], felly mae'n rhan bwysig o economi Cymru.

Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr wedi gwneud sylwadau ar y defnydd o'r cod ledled y DU. Mae wedi annog aelodau i fod yn fwy parod i godi materion gyda'r Dyfarnwr. Pwysleisiodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr y byddai camau ond yn cael eu cymryd pan fyddai'r Dyfarnwr yn dod o hyd i dueddiadau ar draws cyflenwyr.[12]

Tanlinellodd Undeb Amaethwyr Cymru hefyd y manteision o gael contractau uniongyrchol gyda manwerthwyr i sicrhau cadwyni cyflenwi byr a'r gallu i negodi'r prisiau gorau.

Nododd Undeb Amaethwyr Cymru y byddai hyn yn sicrhau bod ffermwyr Cymru yn cael eu gwarchod yn uniongyrchol o dan y cod.[13]

## Proseswyr bwyd yng Nghymru

Gan fod y cod ond yn diogelu cyflenwyr uniongyrchol yn benodol, nid yw rhai cynhyrchwyr wedi'u cynnwys o dan y cod. Mewn rhai diwydiannau, mae ffermwyr yn aml yn gwerthu eu cynnyrch i broseswyr, sydd yna'n cyflenwi'r manwerthwyr. Er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o'r Cod Ymarfer Cyflenwi Bwydydd, mae'r Dyfarnwr wedi annog cynhyrchwyr nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cod i godi unrhyw bryderon. Mae'r Dyfarnwr yn dadlau y bydd hyn yn darparu mwy o ddata i fod yn sail i ymchwiliadau ac yn caniatáu mwy o ymateb gan y Dyfarnwr.[14]

## Newidiadau diweddar i'r farchnad

Yn ddiweddar, mae'r prisiau wrth giât y fferm mewn sectorau amaethyddol allweddol wedi gostwng, yn ogystal ag incwm cynhyrchwyr.

Yn y sector llaeth yng Nghymru, mae ffermwyr wedi gweld gostyngiad o hyd at 20% yn y prisiau a delir am eu llaeth yn ystod y pedwar mis diwethaf.[15] Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer llaeth a ryddhawyd yn 2011 yn dangos bod ffermwyr yn derbyn 35% o elw gros o'r pris adwerthu.[16]

Yn y sector cig coch, sydd ar hyn o bryd yn gyfrifol am tua 40% o allbwn amaethyddol Cymru, mae'r prisiau wrth giât y fferm yn y DU wedi gostwng yn gyson dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r newidiadau mewn prisiau yn ystod y 12 mis diwethaf wedi'u crynhoi yn Nhabl 1, ochr yn ochr â chanran bresennol y pris adwerthu a delir i gynhyrchwyr.

**Tabl 1: Prisiau ac elw a delir i ffermwyr cig coch**

| | Newid ym mhris giât y fferm ±(%) (Medi 2013 – Medi 2014) | % o'r pris manwerthu a delir i gynhyrchwyr (Medi 2014) |
|---|---|---|
| Cig Eidion[17] | −15.2† | 47.3† |
| Porc[18] | −8.17* | 41.7* |
| Cig Oen[19] | −9.14* | 52.2* |

**Data'r DU, †Data Cymru*

[10]Llywodraeth Cymru, **Ystadegau Sectorau Blaenoriaeth**, 18 Medi,2014 [fel ar 23 Hydref 2014]
[11] Ibid, 1.3
[12]Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, **Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd yn nodi llwyddiant**, 26 Mehefin 2014 [fel ar 23 Hydref 2014]
[13]Undeb Amaethwyr Cymru, **Llywydd Undeb Amaethwyr Cymru yn rhybuddio archfarchnadoedd i gefnogi cig eidion Cymreig a Phrydeinig**, 18 Mai 2014 [fel ar 1 Medi 2014]

[14]Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd, **Adroddiad Blynyddol 2013-2014**, 24 Mehefin 2014 [fel ar 23 Hydref 2014]
[15]Dairy Co, **Dairy CO Datum** [fel ar 27 Hydref 2014]
[16] Dairy Co, **Liquid Milk Margins** [fel ar 3 Tachwedd 2014]
[17] Data Hybu Cig Cymru.
[18] BPEX, **Data'r farchnad** [fel ar 3 Tachwedd 2014]
[19]EBLEX, **Ystadegau Cig**, Awst 2014 [fel ar 27 Hydref 2014]

### Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae Cynllun Gweithredu ar gyfer Bwyd Llywodraeth Cymru yn nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd ynghylch cyflenwi bwyd hyd at 2020.[20] Maent yn cynnwys cefnogi gwaith y Dyfarnwr a gweithio gyda ffermwyr Cymru i sicrhau eu bod yn elwa o'r cod. O ganlyniad i'r newidiadau diweddar yn y farchnad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o'r diwydiant llaeth, [21]caiff y canfyddiadau eu cyhoeddi ym mis Chwefror 2015. Mae Hybu Cig Cymru, y corff lefi ar gyfer y diwydiant cig coch yng Nghymru, hefyd wedi comisiynu adolygiad o'r sector cig eidion yng Nghymru, a gyhoeddwyd ar 27 Tachwedd.[22]

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y gadwyn cyflenwi bwyd, cysylltwch â **Nia Seaton** (**Nia.Seaton@cynulliad.cymru**), y Gwasanaeth Ymchwil.

Neu

**Elfyn Henderson**
(**Elfyn.Henderson@cynulliad.cymru**)

Gweler hefyd:

– **Sector Llaeth Cymru**

– **Prisiau Cig Eidion Cymru**

Darllenwch ein holl gyhoeddiadau ar wefan y Cynulliad: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

Gallwch ein dilyn ni ar Twitter hefyd: **@SeneddYmchwil**

Rydym yn croesawu sylwadau. Dylid anfon y rhain i'r: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon mewn neges e-bost i **Ymchwil@Cynulliad.Cymru**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi paratoi'r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn ag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i'r cyhoedd.

**Rhif yr ymholiad: 14/2781**

[20]Llywodraeth Cymru,**Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020**, 10 Mehefin 2014 [fel ar 30 Hydref 2014]
[21]Llywodraeth Cymru, **Adolygiad annibynnol o'r diwydiant llaeth yng Nghymru**, 14 Hydref 2014 [fel ar 3 Tachwedd 2014]
[22]Hybu Cig Cymru, **Adolygiad o'r sector cig coch yng Nghymru, 27 Tachwedd 2014 [fel ar 1 Rhagfyr 2014]**